

27.01.2021

Elin Lenny  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone 0330 588 0506

---

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

---

## Aled Haydn Jones ar 'fenthyg' mam i greu teulu

Does dim amheuaeth fod Aled Haydn Jones yn berson sy'n gweithio'n galed. Ag yntau wedi cyrraedd y brig yn ei yrfa fel Pennaeth BBC Radio 1, mae Aled wedi gweithio'i ffordd i fyny'r ysgol yn raddol i wireddu ei freuddwydion. Bellach wedi ymgartrefu yn Llundain, mae Aled yn cydnabod ei fod wedi dilyn ei galon ar hyd y daith; "Dwi'n ffodus mod i wedi cael swyddi dwi'n eu caru; cyflwynydd teledu, cynhyrchydd sioe radio Chris Moyles a nawr dwi'n cael y faint o redeg un o orsafoedd mwyaf enwog y byd," meddai Aled.

Er y llwyddiant a'r yrfa lewyrchus, mae bwlch yn ei fywyd. Mae Aled a'i bartner o un mlynedd ar bymtheg, Emile, yn dyheu i fod yn rhieni.

"Mae rhywbeth mawr ar goll o'm mywyd. Dwi eisiau dechrau teulu. Ro ni'n arfer meddwl na fyddai'n bosib i mi gael plentyn fy hun yn fiolegol, yna cefais fy nghyflwyno i fyd rhyfeddol.

"Dwi'n cofio dod mas yn hoyw i Mam a Dad pan o ni yn 17 oed, ac maen nhw'n ffantastic nawr, ond y peth cyntaf ddywedodd Mam oedd, wel ti ddim yn mynd i gael plant te."

Ers darganfod y sefydliad Surrogacy UK dwy flynedd yn ôl, newidiodd popeth a dechreuodd Aled ac Emile ar daith ddirdynnol tu hwnt. Fe'u parwyd hwy â Dawn o Matlock, 'mam fenthyg' sy'n rhan allweddol o'r cynllun i wireddu eu breuddwydion. Y gobaith yw y bydd Dawn yn bei chiogi a chario plentyn y cwpwl, trwy drosglwyddo wyau a chylchoedd o IVF.

Bydd Aled, Emile a Dawn yn rhannu eu taith mewn rhaglen ddogfen emosiynol a phersonol nos Sul 7 Chwefror am 9.00.

"Roedd y posibilrwydd o gael cysylltiad biolegol gydag ein babi, ar ôl tyfu lan yn credu na fyddai hynny'n bosib, yn un arbennig felly penderfynom ni fynd trwy *surrogacy* yn gyntaf. Gydag Emile wrth fy ochr, roeddwn i'n benderfynol o roi popeth mewn i'r cyfle anhygoel yma. Mae cymaint o bwysau - chi lan, chi lawr. Doedd dim syniad gennym ni o'r hyn oedd o'n blaenau."

Mae **DRYCH: Ti, fi a'r fam fenthyg** yn rhan o gyfres newydd **DRYCH**; cyfres o ddogfennau gafaelgar sy'n adlewyrchu bywyd cyfoes.

**DRYCH: Aled Haydn Jones; Ti, fi a'r fam fenthyg**

**Nos Sul, 7 Chwefror am 9.00, S4C**

**Isdeitlau Saesneg**

**Ar alw ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**

**Cynhyrchiad Wildflame ar gyfer S4C**

27.01.2021

Elin Lenny  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone 0330 588 0506

---

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

---

## Aled Haydn Jones follows dream of starting a family

Having worked his way up the ladder to achieve his career goals, it is safe to say Aled Haydn Jones has reached the top. The Head of BBC Radio 1 originally from Aberystwyth, who now lives in London, has followed his heart throughout the journey; "I feel lucky to have had jobs I love; a TV presenter, a producer on the Chris Moyles show and now I have the privilege of running one of the most famous radio stations in the world," said Aled.

Despite the success and fulfilled career, Aled and his partner of sixteen years, Emile, face a secret struggle - they long to be parents.

"Something big is missing from my life. I want to start a family. I used to think I wouldn't be able to have a child, biologically, but then I was introduced to a wonderful world.

"I remember coming out to Mum and Dad when I was 17, they're fantastic now, but the first thing Mum said was, 'you won't be able to have a family then'."

Discovering Surrogacy UK two years ago changed everything for the couple and marked the start of an extremely emotional journey for Aled and Emile. The organisation paired them with Dawn from Matlock, a surrogate who holds the key to making their dreams a reality. Through transferring eggs and cycles of IVF, it is hoped Dawn will conceive and carry the couple's child.

Aled, Emile and Dawn share their experiences in an emotive and personal documentary on Sunday 7 February at 9.00, S4C.

"Having that biological link with our baby was an amazing thought after growing up not thinking that would be possible, and that's why we decided to try surrogacy first. With Emile by my side, I was determined to put everything into this amazing opportunity. There's so much pressure – you're up, you're down. We had absolutely no idea what lay ahead."

**DRYCH: Ti, fi a'r fam fenthyg** (You, me and the surrogate) is part of the DRYCH series of captivating documentaries that reflect life today.

**DRYCH: Ti, fi a'r fam fenthyg**

**Sunday, 7 February, 9.00pm, S4C**

**English subtitles available**

**On demand: S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**

**A Wildflame production for S4C**